# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 20 Rhagfyr 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, A.P. Cooper, D.B. Davies, I.W. Davies, J.A. Davies, T. Davies, W.J.W. Evans (yn lle H.I. Jones), W.T. Evans, J.K. Howell, I.J. Jackson, J.D. James (yn lle K. Madge), A.W. Jones, W.J. Lemon, M.J.A. Lewis, M.K. Thomas and J.S. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Y Pennaeth Cynllunio Integredig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
S. Willis, Swyddog Rheoli Datblygu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 2.00 - 4.00 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H.I. Jones a K. Madge.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. S/32808 - GOSOD A GWEITHREDU FFERM SOLAR YN CYNNWYS ARAEAU HAUL, GWRTHDROYDDION, CEBLAU, FFENSYS DIOGELWCH,CAMERÂU DIOGELWCH A THRACIAU MYNEDIAD DROS DRO, TIR GER AC I'R GOGLEDD O HEOL PONTARDDULAIS (A483), TY-CROES, RHYDAMAN**

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 4.1 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 8 Rhagfyr 2016) a oedd wedi ei gynnal er mwyn i'r Pwyllgor weld yr effaith y gallai'r datblygiad ei chael yn weledol ac o ran diogelwch ffyrdd. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

Cafwyd sylw a oedd yn mynegi pryder ynghylch yr agweddau canlynol ar y datblygiad arfaethedig ac a oedd yn ailbwysleisio'r pwyntiau a wnaed yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio:

- Dim budd economaidd i bentref Tŷ-croes - a fyddai'r datblygwr yn barod i gynnig unrhyw iawndal ariannol i'r gymuned leol?;
- Dim mannau i barcio'n ddiogel ar hyd y briffordd sy'n ffinio â'r safle;
- Yr effaith weledol;

Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn dod o'r ardal leol ac y byddai'n agored i'r syniad o ryw fudd i'r gymuned leol ond y byddai hynny'n dibynnu ar faint yr elw nad oedd yn hysbys eto.
Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) i'r materion a godwyd hefyd.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais cynllunio S/32808, yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio.**

**4. W/34187 - 10 CARAFÁN SEFYDLOG NEWYDD A SYMUD 2 GARAFÁN SEFYDLOG, SAFLE CARAFANNAU WAUNYGROES, LLAN-Y-BRI, CAERFYRDDIN, SA33 5AN**

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 5.2 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 8 Rhagfyr 2016) a oedd wedi ei gynnal er mwyn i'r Pwyllgor weld yr effaith y gallai'r datblygiad ei chael yn weledol ac o ran y rhwydwaith ffyrdd lleol. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ac atodiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd yn ei hadroddiad ysgrifenedig.

Cafwyd sylw a oedd yn mynegi pryder ynghylch yr agweddau canlynol ar y datblygiad arfaethedig ac a oedd yn ailbwysleisio'r pwyntiau a wnaed yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio:

- Yr effaith weledol;
- Nid oedd yr ymgeisydd yn byw ar y safle nac yn agos ato;
- Yr effaith niweidiol bosibl ar fusnesau lleol;
- Dim problemau o ran y safle presennol ond bydd y cynllun ehangu'n rhy helaeth ac ni fydd yn gydnaws â'r ardal;
- Dylai'r ymgeisydd ystyried, yn hytrach, uwchraddio'r safle presennol a gallai addasu bloc toiledau diangen yn sba.

Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD**

**4.1 bod cais cynllunio W/34187 yn cael ei gymeradwyo, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, gan fod y Pwyllgor yn fodlon y byddai'r datblygiad arfaethedig o fudd i'r economi wledig ac yn gwella cynllun y safle [gan gynnwys y fynedfa a'r allanfa] a bod manteision y datblygiad yn gorbwyso'r gwrthwynebiad o ran polisi;**

**4.2 bod adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio yn cael ei gyflwyno, i'w gymeradwyo, gerbron y cyfarfod nesaf gan argymell y rhesymau ac amodau sydd i'w hychwanegu at y caniatâd.**

**5. RHANBARTH Y GORLLEWIN**

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/33218** | **Adeiladu preswylfa i weithiwr amaethyddol a garej, a'r holl waith cysylltiedig (materion a gadwyd yn ôl o ran cais amlinellol W/32328 a gymeradwywyd) ar ran o dir ger Sarnginni, Llanybydder, SA40 9SA.** |

**6. RHANBARTH Y DE**

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle:-**

| | |
|---|---|
| **S/34627** | **Cais ôl-weithredol am gadw canopi patio yn y cefn, 91 Heol y Parc, Pontarddulais, Abertawe, SA4 0XX**<br><br>**Y RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y canopi mewn perthynas ag eiddo cyfagos.**<br><br>Roedd sylw wedi dod i law yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle. |

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**